Cofnodion Pwyllgor Cynllunio ac Achosion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar 11 Mai 2005 am 7.00pm yn Neuadd y Sir, Llandeilo.

Yn Bresennol: Maer Cyng Ros Bellamy, Dirprwy Faer Colin Jenkins, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies, June Stait, Clerc.

Ymddiheuriadau: Cyng Richard Wallace, Cyng Fran Murphy,

6477/Mai/05 Ceisiadau Cynllunio i'w hystyried
Cefnogwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

E09823 Cais cynllunio llawn ar gyfer 26 cartref yn Llys Pencrug. Roedd y Cynghorwyr yn teimlo ei fod yn bwysig i ystyried llwybrau troed cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Bydd Swyddog Cynllunio'r Cyngor Sir, Kevin Phillips yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod cynllunio mis Gorffennaf er mwyn trafod y mater. Bydd y mater yn cael ei dynnu yn ôl i gyfarfod mis Mehefin.

E099047 Newid defnydd yn 17 Stryd Caerfyrddin, o fod yn siop i fod yn swyddfa ar gyfer Archaeoleg Cambria

E09888 Newid defnydd yn 2 Cwrt Cubitts, o fod yn ystordy i fod yn gartref

E09887 Lleoli ystafell ddosbarth sydd â modd ei ddatod yn Ysgol Teilo Sant

E09755 Cartref â dau ystafell wely ar dir gyferbyn â 11 Heol Clarence

6478/Mai/05 Trafnidiaeth
1. Derbyniwyd gopi o bolisi'r Cyngor Sir ar arosfannau bysiau, ac aeth y Dirprwy Faer Cyng Colin Jenkins ag ef i'w ddarllen.

2. Nodwyd y bydd Stryd y Farchnad ar gau am gyfnod, o ganlyniad i sgaffaldau

6479/Mai/05 Gohebiaeth
1. Derbyniwyd lythyr wrth y Cyngor Sir yn rhoi gwybod bod y toiledau cyhoeddus yn cael eu gwella ym mis Awst

2. Derbyniwyd a nodwyd Strategaeth Gomisiwn a Chynllun Datblygiad y Cyngor Sir ar gyfer Gwasanaethau i Bobl ag Anableddau Corfforol a Phobl â Nam Synhwyro yn Sir Gaerfyrddin.

3. Derbyniwyd a nodwyd ddogfen wrth y Cyngor Sir oedd yn manylu ar y cyfyngiadau aros ar Heol Rhosmaen yn Llandeilo

4. Derbyniodd y Maer a Cyng Pam Steane Price wahoddiad i fynychu Parti Gardd yr Aelodau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar 24 Mai, rhwng 11 - 4 pm.

5. Derbyniwyd gopi o lythyr wrth Beiriannydd Priffyrdd y Cyngor Sir i'r Aelod Cynulliad Rhodri Glyn Thomas, oedd yn rhoi gwybod bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud er mwyn dod o hyd i grantiau er mwyn gwella Heol yr Orsaf.

6480/Mai/05 Torri Gwair
Fe wnaeth y Maer gynhori'r Cyngor nad yw'r gwair ar gornel Heol Clarendon yn cael ei dorri yn rheolaidd, ac fe benderfynwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at y Cyngor Sir er mwyn gofyn i hyn gael ei wneud.

6481/Mai/05 Llwybrau Troed

Fe wnaeth y Cynghorwyr adnabod nad yw anghenion cynnal a chadw llwybrau troed wedi cael eu hystyried ar gyfer y flwyddyn hon. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.